

Thema 8 Nodiadau athrawon: Mynd ar wyliau?

Cyfnod Sylfaen:	
<p>Crynodeb o'r ymholiad: I ddechrau, mae dysgwyr yn ysgogi eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth flaenorol am yr hyn sy'n gwneud gwyliau da. Maent yn archwilio sut i gasglu, cofnodi a chyflwyno data eu hun yng nghyd-destunau gwahanol fathau o wyliau, a ffyrdd o gadw'n oer neu amddiffyn ein hunain rhag golau haul. Mae'r dysgwyr yn ystyried beth allai gwyliau yng Nghymru gynnwys, ac ym mhle mae atyniadau twristiaeth mwyaf poblogaidd Cymru. Yn olaf, maent yn ystyried agweddau cadarnhaol o'u hardaloedd lleol a sut i'w hysbysebu'n lleoliad i dwristiaeth.</p>	<p>Cysylltiadau â'r Cwricwlwm a'r FfLIRh: Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd Lleoedd a phobl; Fi fy hun a phethau byw eraill Datblygiad Creadigol: Celf, crefft a dylunio</p> <p>FfLIRh: Defnyddio data: Casglu a chofnodi data; Cyflwyno a dadansoddi data; Dehongli canlyniadau</p> <p>FfCD: Cynhyrchu; Data a meddwl cyfrifiadurol</p>

Sgrin	Defnyddio'r sgrin:	Cyfle dysgu:
1	<p>Gofynnir i ddysgwyr ystyried beth sy'n gwneud gwyliau da. Maent yn tynnu llun neu'n ysgrifennu eu syniadau ar y sgrin, ac yna darperir tri chylch iddyn nhw. Gofynnir i ddysgwyr lusgo a gollwng y lluniau i grwpiau, gan ddefnyddio'r cylchoedd, ac i roi teitl i bob grŵp, neu ddefnyddio'r geiriau a ddarperir. I gychwyn, gellid cyfeirio dysgwyr i ddefnyddio dau gylch a rhoi maen prawf iddynt os oes angen. Gellid gwneud y dasg yn anoddach drwy gael dysgwyr yn penderfynu ar eu maen prawf eu hunain, rhoi dau faen prawf iddynt ac yn y blaen. Fel arall, efallai y gofynnir i'r dysgwyr gwblhau'r dasg mewn modd penagored, gan ddarparu cyfleoedd i'r rhai sy'n gweithio ar lefelau uwch gynhyrchu diagram Venn* os ydynt yn dewis gwneud hynny.</p> <p>I gychwyn, gallai dysgwyr ddefnyddio meddwl-paru-rhannu* i ystyried sut y gellir</p>	<p>Mae dysgwyr yn ystyried beth sy'n gwneud gwyliau da a sut i gasglu, cofnodi a chyflwyno'u data eu hunain.</p> <p>Adnoddau ychwanegol: http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130429how-to-develop-thinking-cy.pdf</p>

	<p>didoli a dosbarthu'r lluniau.</p> <p>Mae cwestiynau yn annog dysgwyr i ystyried sut maent wedi didoli a dosbarthu eu syniadau a ffyrdd eraill y gallent eu didoli a'u dosbarthu.</p>	
<p>Sgrin</p> <p>2</p>	<p>Defnyddio'r sgrin:</p> <p>Ar y sgrin hon mae tabl sy'n dangos y mathau o wyliau y mae plant wedi dweud y byddent yn hoffi mynd arnyn nhw. I ddechrau, gofynnir i ddysgwyr rannu syniadau am y gwahanol fathau o wyliau y mae pobl yn mynd arnynt, ac yna i ddefnyddio'r wybodaeth yn y tabl i lunio pictogram.</p> <p>Mae gweithgaredd yn gwahodd dysgwyr i ystyried pa fath o wyliau yr hoffai pawb yn y dosbarth fynd arno, ac i gasglu'r data. Darperir cwestiynau cymorth i arwain dysgwyr trwy'r broses casglu data a chyflwyno canlyniadau. Darperir pictogram rhyngweithiol i ddysgwyr ddangos eu syniadau.</p>	<p>Cyfle dysgu:</p> <p>Mae dysgwyr yn ystyried data am wyliau gwahanol a gyflwynir mewn tabl, ac yn casglu data a'i ddefnyddio i lunio pictogramau rhyngweithiol.</p>
<p>Sgrin</p> <p>3</p>	<p>Defnyddio'r sgrin:</p> <p>Ar y sgrin, darperir delwedd ysgogol o blant yn chwarae mewn golau haul uniongyrchol a gofynnir i ddysgwyr rannu a thrafod eu syniadau ynglŷn â sut y gall golau haul wneud niwed i ni a sut y gallwn ni gadw'n ddiogel mewn golau haul.</p> <p>Yn y prif weithgaredd, mae lluniau o wahanol ffyrdd o gadw'n oer neu amddiffyn ein hunain rhag yr haul yn ymddangos ar y sgrin, ynghyd â 3 chylch. Gofynnir i ddysgwyr lusgo a gollwng y lluniau i grwpiau, gan ddefnyddio'r cylchoedd, ac i roi teitl i bob grŵp. I gychwyn, gellid cyfeirio dysgwyr i ddefnyddio dau gylch a rhoi maen prawf os oes angen. Gellid gwneud y dasg yn anoddach drwy gael dysgwyr yn penderfynu ar eu maen prawf eu hunain, rhoi dau faen prawf iddyn nhw ac yn y blaen. Fel arall, efallai y gofynnir i'r dysgwyr gwblhau'r dasg mewn modd penagored, gan ddarparu cyfleoedd i'r rhai sy'n gweithio ar lefelau uwch gynhyrchu diagram Venn* os ydynt yn dewis gwneud hynny.</p>	<p>Cyfle dysgu:</p> <p>Mae dysgwyr yn ystyried ffyrdd o gadw'n ddiogel mewn golau haul.</p> <p>Adnoddau ychwanegol:</p> <p>http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130429how-to-develop-thinking-cy.pdf</p>

	<p>I gychwyn, gallai dysgwyr ddefnyddio meddwl-paru-rhannu* i fynegi eu syniadau ynglŷn â sut y gellid datrys a dosbarthu'r lluniau.</p> <p>Mae cwestiynau mewn swigen yn annog dysgwyr i ystyried sut maent wedi didoli a dosbarthu'r delweddau a'r ffyrdd eraill y gallent eu didoli a'u dosbarthu. Efen bwysig o'r dasg hon yw bod pob dysgwr yn cael y cyfle i ddewis sut y byddant yn gwneud y dasg. Bydd hyn yn arwain at amrywiaeth o syniadau a dulliau a chyflwyno geirfa wyddonol drwy gyfrwng trafodaethau'r dysgwyr.</p>	
<p>Sgrin</p> <p>4</p>	<p>Defnyddio'r sgrin:</p> <p>Mae dysgwyr yn ystyried beth allai gwyliau yng Nghymru ei olygu. Maent yn rhannu a thrafod syniadau ynghylch pam y byddai pobl yn ymweld â Chymru a'r hyn y gallent ddod i'w weld a'i wneud. Darperir clip fideo o weithgareddau gwyliau nodweddiadol yng Nghymru ynghyd ag ail fideo sy'n dangos y deg atyniad twristiaeth mwyaf yng Nghymru.</p> <p>Mae gweithgaredd rhyngweithiol yn gwahodd dysgwyr i ystyried lle mae'r atyniadau twristiaeth mwyaf yng Nghymru. Darperir map rhyngweithiol o Gymru a rhestr o atyniadau twristaidd, a gofynnir i ddysgwyr lusgo a gollwng enwau'r atyniadau ar y map.</p>	<p>Cyfle dysgu:</p> <p>Mae dysgwyr yn ystyried yr hyn y gallai gwyliau yng Nghymru ei olygu a lle mae'r atyniadau twristiaeth mwyaf yng Nghymru.</p> <p>Cysylltiadau defnyddiol: http://croeso.cymru/</p>
<p>Sgrin</p> <p>5</p>	<p>Defnyddio'r sgrin:</p> <p>Nod y sgrin hon yw annog dysgwyr i werthu y man y maen nhw'n byw ynddo fel cyrchfan i dwristiaid. I ddechrau, gofynnir iddynt drafod o ble maen nhw'n dod yng Nghymru, lle mae'r lle hwn yng Nghymru a'r lleoedd sy'n agos iddo ac yn y blaen.</p> <p>Mae gweithgaredd mewn swigen yn gwahodd dysgwyr i ystyried sut y gallant hysbysebu'r lle maent yn byw ac i restru'r holl resymau y gallai pobl ymweld â'r ardal. Darperir cwestiynau cymorth yn gyfarwyddyd a gwahoddir dysgwyr i greu canllaw i dwristiaid ar gyfer yr ardal y maent yn byw ynddi.</p>	<p>Cyfle dysgu:</p> <p>Mae dysgwyr yn ystyried yr agweddau cadarnhaol am ble maent yn byw a sut i'w hysbysebu fel cyrchfan i dwristiaid.</p> <p>Cysylltiadau defnyddiol: http://croeso.cymru/</p>

Cyfnod Allweddol 2	
<p>Crynodeb o'r ymholiad:</p> <p>I ddechrau, mae dysgwyr yn ysgogi eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth flaenorol am yr hyn sy'n gwneud gwyliau da. Maent yn archwilio pam mae angen i ni amddiffyn ein hunain rhag golau haul, beth yw mynegai uwchfioled a sut y gallan nhw amddiffyn eu hunain rhag golau haul. Mae'r dysgwyr yn ystyried pam mae dydd a nos yn digwydd, amser mewn gwahanol leoedd o gwmpas y byd a chylchfaoedd (neu ranbarthau) amser. Yn olaf, maent yn archwilio gwefannau teithio a gwefannau cymharu prisiau ac yn cynllunio gwyliau rhad.</p>	<p>Cysylltiadau â'r Cwricwlwm a'r FflIRh:</p> <p>CA2: Gwyddoniaeth: Y Ddaear gynaliadwy: Sut mae pethau'n gweithio</p> <p>CA2: Dylunio a thechnoleg: Dylunio; Gwneud</p> <p>FflIRh:</p> <p>Defnyddio sgiliau mesur: Hyd, pwysau/màs, cynhwysedd</p> <p>Defnyddio data: Casglu a chofnodi data; Cyflwyno a dadansoddi data; Dehongli canlyniadau</p> <p>FfCD: Dinasyddiaeth; Rhyngweithio a chydweithio; Cynhyrchu; Data a meddwl cyfrifiadurol</p>

Sgrin	<p>Defnyddio'r sgrin:</p> <p>I ddechrau, gofynnir i ddysgwyr ddatblygu meini prawf llwyddiant ar gyfer yr hyn sy'n gwneud gwyliau da. Fe'u gwahoddir i gofnodi eu syniadau mewn blychau ar y sgrin ac wedyn i lusgo a gollwng y blychau i mewn i'r grid rhestru diemwnt*.</p> <p>Mae gweithgaredd mewn swigen yn gwahodd dysgwyr i ystyried beth fyddai'r gwyliau gorau. Fe'u hanogir i drafod syniadau a chynnal ymchwil cyn rhannu eu syniadau mewn cyflwyniad un munud.</p>	<p>Cyfle dysgu:</p> <p>Mae dysgwyr yn ystyried beth sy'n gwneud gwyliau da.</p> <p>Adnoddau ychwanegol: http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130429how-to-develop-thinking-cy.pdf</p>
--------------	---	---

<p>Sgrin</p> <p>2</p>	<p>Defnyddio'r sgrin:</p> <p>I ddechrau, gofynnir i ddysgwyr rannu a thrafod eu syniadau ynghylch pam mae angen i ni amddiffyn ein hunain rhag golau haul. Mae graff ar y sgrîn a chwestiynau perthnasol yn cael eu darparu fel ysgogiad i annog trafodaeth.</p> <p>Mae gweithgaredd mewn swigen yn gwahodd dysgwyr i gael mynediad at y wefan GIG ganlynol, er mwyn ei harchwilio. Mae'r wefan yn cynnwys gwybodaeth am or-amlygiad i'r haul, a dolenni cyswllt perthnasol.</p> <p>http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/45005/</p> <p>Gofynnir i ddysgwyr rannu eu syniadau am yr hyn y maent wedi'i ddysgu o'r wefan.</p> <p>Mae ail weithgaredd yn gofyn i ddysgwyr gynllunio a chynnal ymchwil i ddod o hyd i wybodaeth ynghylch pam mae angen i ni amddiffyn ein hunain rhag yr haul a pha gamau y gallwn eu cymryd i wneud hyn. Fe'u gwahoddir i wneud fideo fer sy'n esbonio i blant neu rieni iau pam fod angen i ni amddiffyn ein hunain rhag gormod o olau haul. Darperir cefnogaeth ar gyfer y weithdrefn gynllunio, drwy gyfrnwg set o gwestiynau.</p>	<p>Cyfle dysgu:</p> <p>Mae dysgwyr yn ystyried pam mae angen i ni amddiffyn ein hunain rhag golau haul.</p> <p>Cysylltiadau defnyddiol:</p> <p>http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/45005/</p> <p>http://www.cymruiacharwaith.cymru.nhs.uk/diogelwch-yn-yr-haul</p>
<p>Sgrin</p> <p>3</p>	<p>Defnyddio'r sgrin:</p> <p>Mae ffotograff i ysgogi yn dangos infograffig sy'n cyfleu gwybodaeth am 'fynegai uwchfioled'.</p> <p>Gofynnir i ddysgwyr rannu eu syniadau am yr hyn y mae'r infograffeg yn ei gyfleu iddynt, beth maen nhw'n ei wybod am y term 'mynegai uwchfioled' a'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r ystod o rifau ar y raddfa mynegai uwchfioled.</p> <p>Mae gweithgaredd yn gwahodd dysgwyr i ddefnyddio'r rhyngwrdd i chwilio am ragolygon tywydd ar gyfer y rhanbarth o Gymru y maent yn byw ynddo a rhagolygon tywydd am le y byddent yn hoffi ymweld ag ef ar wyliau. Mae cwestiynau cymorth yn annog dysgwyr i ystyried y tymereddau uchaf a'r lleiaf a graddfeydd mynegai</p>	<p>Cyfle dysgu:</p> <p>Mae dysgwyr yn ystyried beth yw mynegai uwchfioled ac yn archwilio sut y gallant amddiffyn eu hunain rhag golau haul.</p> <p>Cysylltiadau defnyddiol:</p> <p>http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/45005/</p> <p>http://www.cymruiacharwaith.cymru.nhs.uk/diogelwch-yn-yr-haul</p>

	<p>uwchfioled.</p> <p>Mae ail weithgaredd yn gwahodd dysgwyr i gynllunio a chynnal ymchwil i ddod o hyd i wybodaeth am y mynegai uwchfioled. Gofynnir iddynt wneud poster sy'n hysbysu pobl am y mynegai uwchfioled ac yn rhoi arweiniad ar sut i amddiffyn eich hun rhag golau haul.</p>	
<p>Sgrin</p> <p>4</p>	<p>Defnyddio'r sgrin:</p> <p>Ar y sgrin, darperir delweddau o bedwar o blant sydd â swigen lleferydd, gyda phob un yn cynnwys datganiad yn ymwneud â'r amser mewn gwahanol leoedd o gwmpas y byd. Gofynnir i ddysgwyr drafod a ydynt yn cytuno â'r hyn y mae pob plentyn yn ei ddweud ac i egluro eu rhesymu.</p> <p>Mae gweithgaredd yn gofyn i'r dysgwyr ystyried a rhannu eu syniadau ynghylch pam mae dydd a nos yn digwydd. Darperir cwestiynau cymorth i arwain eu trafodaethau.</p> <p>Mae ail weithgaredd yn gofyn i ddysgwyr ystyried sut y gallant esbonio dydd a nos i bobl eraill. Fe'u gwahoddir i wyllo a thrafod clip fideo i'w ysgogi ac yna i gynllunio a chreu clip fideo un munud eu hunain i esbonio pam mae dydd a nos yn digwydd. Nod y sgrin hon yw i ddysgwyr ystyried pam mae dydd a nos yn digwydd, megis arweiniad i'r gweithgaredd ar y sgrin nesaf.</p>	<p>Cyfle dysgu:</p> <p>Mae dysgwyr yn ystyried pam mae dydd a nos yn digwydd a'r amser mewn gwahanol leoedd o gwmpas y byd.</p>
<p>Sgrin</p> <p>5</p>	<p>Defnyddio'r sgrin:</p> <p>I ddechrau, gofynnir i ddysgwyr ystyried pa amser yw hi mewn gwahanol rannau o'r byd. Fe'u gwahoddir i ddefnyddio'r rhyngwyd i chwilio am wybodaeth am yr amser mewn gwahanol rannau o'r byd ac archwilio hyn. Awgrymir termau chwilio iddynt i gefnogi eu chwiliad ac mae'n ofynnol iddynt adrodd eu canfyddiadau i weddill y dosbarth.</p> <p>Mae gweithgaredd mewn swigen yn gofyn i ddysgwyr os gallant gwblhau darn o</p>	<p>Cyfle dysgu:</p> <p>Mae dysgwyr yn archwilio cylchfaeod amser a'r amser mewn gwahanol rannau o'r byd.</p>

	<p>ymchwil. Rhoddir senario iddynt am ddsbarth sydd wedi bod yn ymchwilio i amseroedd hedfan a hyd teithiau rhwng gwahanol gylchfaoedd (neu ranbarthau) amser. Gwahoddir dysgwyr i gwblhau'r ymchwil hwn trwy ddarganfod beth yw'r wybodaeth sydd ar goll mewn tabl ac yna cwblhau'r tabl. Darperir cwestiynau cymorth i arwain dysgwyr trwy'r broses ddatrys problemau.</p>	
<p>Sgrin 6</p>	<p>Defnyddio'r sgrin: Mae'r gweithgaredd hwn yn gwahodd dysgwyr i ystyried sut y gallant gynllunio gwyliau tramor. Mae ffotograff ysgogol yn dangos plentyn sy'n meddwl am wahanol leoedd yn y byd yr hoffai ymweld â nhw. Gofynnir i ddysgwyr rannu a thrafod eu syniadau ynglŷn â lle yr hoffent fynd, pam yr hoffent fynd i'r lle hwn, beth maen nhw'n ei wybod am y lle hwn a'r hyn y byddent yn ei wneud yno.</p> <p>Mae ffotograff arall i symbylu dysgwyr yn dangos cwpl ifanc yn dweud "Gallwch chi drefnu gwyliau eich hun. Mae gwefannau cymharu prisiau teithiau awyren i'w cael, a gallwch chwilio ar-lein am y prisiau gorau am westai, trenau, trosglwyddiadau ac arian gwyliau!"</p> <p>Mae gweithgaredd mewn siwgen yn gwahodd dysgwyr i ystyried yr hyn maen nhw'n ei wybod am wefannau teithio a gwefannau cymharu prisiau. Mae ail weithgaredd yn gofyn i ddysgwyr drefnu'r gwyliau rhataf posibl. Maent yn penderfynu ar hoff wlad neu le yr hoffent ymweld â hwy a chynllunio gwyliau yno iddynt hwy a'u teulu. Darperir cwestiynau i arwain dysgwyr drwy'r broses ac mae'n ofynnol iddynt gyflwyno eu cynllun terfynol i'r dosbarth, gan gynnwys dadansoddiad o'r holl gostau a chyfanswm y gost.</p>	<p>Cyfle dysgu: Mae dysgwyr yn archwilio gwefannau teithio a gwefannau cymharu costau, ac yna'n cynllunio gwyliau rhad.</p> <p>Cysylltiadau defnyddiol: http://croeso.cymru/</p>

Cyfnod Allweddol 3

Crynodeb o'r ymholiad:

I ddechrau, mae dysgwyr yn ysgogi eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth flaenorol am yr hyn sy'n gwneud gwyliau da. Maent yn archwilio pam mae angen i ni amddiffyn ein hunain rhag golau haul, beth yw mynegai uwchfioled a sut y gallant amddiffyn eu hunain rhag golau haul. Mae dysgwyr yn ystyried a yw'r môr yn ddigon cynnes i nofio ynddo mewn gwahanol rannau o'r byd ac yn archwilio cylchfaoedd (neu barthau) amser a'r amser mewn gwahanol rannau o'r byd. Yn olaf, maent yn archwilio gwefannau teithio a gwefannau cymharu prisiau ac yn cynllunio gwyliau rhad.

Cysylltiadau â'r Cwricwlwm a'r FfLIRh:

CA3: Gwyddoniaeth:

Y Ddaear gynaliadwy: Sut mae pethau'n gweithio

CA3: Dylunio a thechnoleg:

Dylunio; Gwneud

FfLIRh:

Defnyddio sgiliau mesur:

Hyd, pwysau/màs, cynhwysedd

Defnyddio data:

Casglu a chofnodi data; Cyflwyno a dadansoddi data; Dehongli canlyniadau

FfCD: Dinasyddiaeth; Rhyngweithio a chydweithio; Cynhyrchu; Data a meddwl cyfrifiadurol

<p>Sgrin</p> <p>1</p>	<p>Defnyddio'r sgrin:</p> <p>I ddechrau, gofynnir i ddysgwyr ddatblygu meini prawf llwyddiant ar gyfer yr hyn sy'n gwneud gwyliau da. Fe'u gwahoddir i gofnodi eu syniadau mewn blychau ar y sgrin ac wedyn i lusgo a gollwng y blychau i mewn i'r grid rhestru diemwnt*.</p> <p>Mae gweithgaredd yn gwahodd dysgwyr i ystyried beth fyddai'r gwyliau gorau. Fe'u hanogir i drafod syniadau a chynnal ymchwil cyn rhannu eu syniadau mewn cyflwyniad un munud.</p>	<p>Cyfle dysgu:</p> <p>Mae dysgwyr yn ystyried beth sy'n gwneud gwyliau da.</p> <p>Adnoddau ychwanegol:</p> <p>http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130429how-to-develop-thinking-cy.pdf</p>
-------------------------------------	---	--

<p>Sgrin</p> <p>2</p>	<p>Defnyddio'r sgrin:</p> <p>I ddechrau, gofynnir i ddysgwyr rannu a thrafod eu syniadau ynghylch pam mae angen i ni amddiffyn ein hunain rhag golau haul. Gwnânt ymchwil am oleuni uwchfioled a'i effeithiau ar y corff dynol a gofynnir iddynt greu cyflwyniad dau funud i rannu eu canfyddiadau gyda'r dosbarth.</p> <p>Mae gweithgaredd yn gwahodd dysgwyr i ystyried ac archwilio'r honiadau a wneir gan wneuthurwr eli haul, trwy ddadansoddi a thrafod dau graff llinell.</p> <p>Mae ail weithgaredd yn gwahodd dysgwyr i gynllunio a chynnal ymchwiliad i brofi eli haul gwahanol ffactor, gan ddefnyddio papur sy'n sensitif i oleuni uwchfioled neu leiniau uwchfioled. Darperir cwestiynau cymorth yn ganllaw.</p>	<p>Cyfle dysgu:</p> <p>Mae dysgwyr yn ystyried pam mae angen i ni amddiffyn ein hunain yng ngolau haul.</p> <p>Cysylltiadau defnyddiol:</p> <p>Mae disgwyl y bydd y dudalen we hon ar gael yn y Gymraeg yn y dyfodol agos: http://www.bbc.co.uk/bitesize/ks3/maths/handling_data/representing_data/revision/3/</p>
<p>Sgrin</p> <p>3</p>	<p>Defnyddio'r sgrin:</p> <p>Mae ffotograff i ysgogi yn dangos infograffig sy'n cyfleu gwybodaeth am 'fynegai uwchfioled'.</p> <p>Gofynnir i ddysgwyr rannu eu syniadau am yr hyn y mae'r infograffeg yn ei gyfleu iddynt, beth maen nhw'n ei wybod am y term 'mynegai uwchfioled' a'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r ystod o rifau ar y raddfa mynegai uwchfioled.</p> <p>Mae gweithgaredd yn gwahodd dysgwyr i ddefnyddio'r rhyngwyd i chwilio am ragolygon tywydd ar gyfer y rhanbarth o Gymru y maent yn byw ynddo a rhagolygon tywydd am le y byddent yn hoffi ymweld ag ef ar wyliau. Mae cwestiynau cymorth yn annog dysgwyr i ystyried y tymereddau uchaf a'r lleiaf a graddfeydd mynegai uwchfioled.</p> <p>Mae ail weithgaredd yn gwahodd dysgwyr i gynllunio a chynnal ymchwil i ddod o hyd i wybodaeth am y mynegai uwchfioled. Gofynnir iddynt wneud poster sy'n hysbysu pobl</p>	<p>Cyfle dysgu:</p> <p>Mae dysgwyr yn ystyried beth yw mynegai uwchfioled ac yn archwilio sut y gallant amddiffyn eu hunain rhag golau haul.</p> <p>Cysylltiadau defnyddiol:</p> <p>http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/45005/</p> <p>http://www.cymruiacharwaith.cymru.nhs.uk/diogelwch-yn-yr-haul</p>

	am y mynegai uwchfioled ac yn rhoi arweiniad ar sut i amddiffyn eich hun rhag golau haul.	
Sgrin 4	<p>Defnyddio'r sgrin: Mae dysgwyr yn ystyried a yw'r môr yn ddigon cynnes i nofio ynddo mewn gwahanol rannau o'r byd. Maent yn rhannu a thrafod syniadau wrth wyllo clip fideo sy'n dangos y newid yn nhymheredd y môr yn fyd-eang dros y tri deg mlynedd diwethaf. Darperir cwestiynau cymorth i arwain trafodaethau.</p> <p>Mae gweithgaredd yn gwahodd dysgwyr i ystyried beth fyddai tymheredd môr diogel i nofio ynddo ac fe'u hanogir i brofi samplau o ddŵr ar dymhereddau yn amrywio o 10°C i 40°C, ac yna i drafod eu syniadau. Mae'r gweithgaredd yn annog dysgwyr i wneud ymchwil i ddarganfod gwybodaeth am dymheredd y môr a argymhellir ar gyfer nofio a beth allai ddigwydd pe byddent mewn dŵr a oedd yn oerach na hyn am unrhyw gyfnod o amser. Gofynnir i ddysgwyr roi adborth i'w canfyddiadau a'u syniadau mewn cyflwyniad 30 eiliad.</p> <p>Mae ail weithgaredd yn annog dysgwyr i ystyried beth yw tymheredd y môr mewn mannau gwahanol. Maent yn chwilio am 'dymheredd y môr' ar y rhynggrwyd ac yn chwilio am wybodaeth a mapiau sy'n eu galluogi i archwilio tymheredd y môr ar gyfartaledd ledled Cymru a gwledydd eraill. Mae dysgwyr yn dewis gwlad arall yn Ewrop ac yn cymharu tymheredd y môr ar gyfartaledd, tymheredd uchaf a thymheredd isaf y môr yn y wlad hon ac yng Nghymru.</p>	<p>Cyfle dysgu: Mae dysgwyr yn ystyried a yw'r môr yn ddigon cynnes i nofio ynddo mewn gwahanol rannau o'r byd.</p>
Sgrin 5	<p>Defnyddio'r sgrin: I ddechrau, gofynnir i ddysgwyr ystyried pa amser yw hi mewn gwahanol rannau o'r byd. Fe'u gwahoddir i ddefnyddio'r rhynggrwyd i chwilio am wybodaeth am yr amser mewn gwahanol rannau o'r byd ac archwilio hyn. Awgrymir termau chwilio iddynt i gefnogi eu chwiliad ac mae'n ofynnol iddynt adrodd eu canfyddiadau i weddill y</p>	<p>Cyfle dysgu: Mae dysgwyr yn archwilio cylchfaoedd amser a'r amser mewn gwahanol rannau o'r byd.</p>

	<p>dosbarth.</p> <p>Mae gweithgaredd yn gofyn i ddysgwyr gwblhau darn o ymchwil. Rhoddir senario iddynt am ddosbarth sydd wedi bod yn ymchwilio i amseroedd hedfan a hyd teithiau rhwng gwahanol gylchfaoedd (neu ranbarthau) amser.</p> <p>Gwahoddir dysgwyr i gwblhau'r ymchwil hwn trwy ddarganfod beth yw'r wybodaeth sydd ar goll mewn tabl ac yna cwblhau'r tabl. Darperir cwestiynau cymorth i arwain dysgwyr trwy'r broses ddatrys problemau.</p>	
<p>Sgrin</p> <p>6</p>	<p>Defnyddio'r sgrin:</p> <p>Mae'r gweithgaredd hwn yn gwahodd dysgwyr i ystyried sut y gallant gynllunio gwyliau tramor. Mae ffotograff ysgogol yn dangos plentyn sy'n meddwl am wahanol leoedd yn y byd yr hoffai ymweld â nhw. Gofynnir i ddysgwyr rannu a thrafod eu syniadau ynglŷn â lle yr hoffent fynd, pam yr hoffent fynd i'r lle hwn, beth maen nhw'n ei wybod am y lle hwn a'r hyn y byddent yn ei wneud yno.</p> <p>Mae ffotograff arall i symbylu dysgwyr yn dangos cwpl ifanc yn dweud "Gallwch chi drefnu gwyliau eich hun. Mae gwefannau cymharu prisiau teithiau awyren i'w cael, a gallwch chwilio ar-lein am y prisiau gorau am westai, trenau, trosglwyddiadau ac arian gwyliau!"</p> <p>Mae gweithgaredd yn gwahodd dysgwyr i ystyried yr hyn maen nhw'n ei wybod am wefannau teithio a gwefannau cymharu prisiau. Mae ail weithgaredd yn gofyn i ddysgwyr drefnu'r gwyliau rhataf posibl. Maent yn penderfynu ar hoff wlad neu le yr hoffent ymweld â hwy a chynllunio gwyliau yno iddynt hwy a'u teulu. Darperir cwestiynau i arwain dysgwyr drwy'r broses ac mae'n ofynnol iddynt gyflwyno eu cynllun terfynol i'r dosbarth, gan gynnwys dadansoddiad o'r holl gostau a chyfanswm y gost.</p>	<p>Cyfle dysgu:</p> <p>Mae dysgwyr yn archwilio gwefannau teithio a gwefannau cymharu costau, ac yna'n cynllunio gwyliau rhad.</p> <p>Cysylltiadau defnyddiol:</p> <p>http://croeso.cymru/</p>